

This document is also available in English

Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Gofal a Chymorth i Oedolion

Staff Gofal Cymdeithasol

Cymeradwywyd		SMG		
Dyddiad		Rhif y Cofnod		
Fersiwn	Disgrifiad o'r Rheswm am Newid	Awdur	Awdurdodiad	Dyddiad Cyhoeddi
01	Rhifyn Gwreiddiol			04/04/22

Cynnwys		Rhif Tudalen
1.0	Cyflwyniad a Chefndir	3.
2.0	Diben y Polisi hwn	4.
3.0	Pwy y mae'r polisi yn effeithio arnynt?	4.
4.0	Gwasanaethau y gellir codi tâl amdanynt ac na ellir codi tâl amdanynt	4.
5.0	Taliadau Unffurf	5.
6.0	Trin Cyfalaf	5.
7.0	Trin Incwm	6.
8.0	Isafswm Incwm	8.
9.0	Uchafswm tâl wythnosol am wasanaethau	9.
10.0	Gweithdrefn ar gyfer gosod tâl	10.
11.0	Asesiad Ariannol	10.
12.0	Asesiad o Ddefnyddwyr Gwasanaeth fel Pobl Sengl neu Gwpl (Gofal dibreswyl)	11.
13.0	Treuliau a Chostau (Gofal Dibreswyl)	12.
14.0	Trefniadau Talu Gohiriedig (Gofal Preswyl / Nyrsio)	12.
15.0	Taliadau Ychwanegol – Cost Ychwanegol (Gofal Preswyl / Nyrsio yn unig)	13.
16.0	Adennill dyledion ac Amddifadu Asedau	13.
17.0	Adolygiadau a Chwynion	14.
18.0	Cronfa Byw'n Annibynnol	16.
	Atodiad 1 – Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru	17.
	Atodiad 2 – Ffioedd a manylion ariannol	18.

1.0 Cyflwyniad a Chefndir

Cyflwyniad

Ar 6 Ebrill 2016, daeth y fframwaith asesu ariannol a chodi tâl o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") i rym. Mae'r fframwaith yn berthnasol o'r dyddiad lle bo awdurdodau lleol yn defnyddio eu disgresiwn o dan y Ddeddf i godi tâl am y Gofal a'r Cymorth y maent yn eu darparu neu'n eu trefnu, neu am y taliadau uniongyrchol y maent yn eu darparu i alluogi person i dderbyn gwasanaethau Gofal a Chymorth. Bydd yn disodli'r fframwaith y mae Awdurdodau yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

Cefndir

Mae'r Ddeddf yn tynnu ynghyd dyletswyddau a swyddogaethau'r Awdurdodau Lleol mewn perthynas â gwella lles pobl sydd angen Gofal a Chymorth, a gofalmwr sydd angen cefnogaeth, i un ddeddfwriaeth sengl. Daw'r Ddeddf i rym ar 6 Ebrill 2016 ac mae'n darparu fframwaith statudol i ddarparu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar les, hawliau a chyfrifoldebau.

Mae'r fframwaith statudol presennol ar gyfer asesiad ariannol a chodi tâl yn deillio o ddarnau ar wahân o ddeddfwriaeth. Yn bennaf Deddf Cymorth Gwladol 1948 ar gyfer codi tâl am ofal preswyl, a Mesur Taliadau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010 ar gyfer codi tâl am ofal dibreswyl. O'r herwydd mae'r fframwaith yn cynnwys nifer o reoliadau a chanllawiau ar wahân, ac mae rhai ohonynt wedi dyddio yn awr. O 6 Ebrill 2016 bydd y ddeddfwriaeth hon yn cael ei disodli gan y Ddeddf, a'r Rheoliadau a'r Cod Ymarfer a wnaed o dan y Ddeddf. O ganlyniad, bydd y rheoliadau a'r canllawiau presennol mewn perthynas ag asesiad ariannol a chodi tâl yn cael eu disodli hefyd.

Rheoliadau a Chod Ymarfer

Y rheoliadau mewn perthynas ag asesiadau ariannol a chodi tâl a fydd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016 yw:

- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis Llety) (Cymru) 2015
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Codi Tâl) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliad Gohiriedig) (Cymru) 2015.
- Rheoliadau Gofal a Chymorth (Adolygu Penderfyniadau Codi Tâl) Cymru 2015

Yn ogystal â hyn, o'r diwrnod hynny bydd Cod Ymarfer asesiadau ariannol a chodi tâl yn dod i rym hefyd. Bydd y Rheoliadau a'r Cod yn disodli'r rhai y mae'r awdurdodau yn eu defnyddio ar hyn o bryd felly ni fydd y rheoliadau, cyfarwyddiadau a statudau presennol mewn grym mwyach.

2.0 Diben y Polisi hwn

O dan y 'Ddeddf' newydd mae holl Awdurdodau Lleol Cymru yn derbyn cyfle i arfer, neu beidio, eu disgresiwn i godi tâl am wasanaethau gofal. Pan fydd Awdurdodau Lleol yn penderfynu arfer eu disgresiwn mae'r Ddeddf yn nodi'r manylion o ran lleiafswm gofynion penodol y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw mewn perthynas â'r holl agweddau o asesiadau ariannol a chodi tâl.

Mae diben y polisi hwn fel a ganlyn:

- Cadarnhau y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn arfer y disgresiwn a roddwyd iddo o dan y Ddeddf i godi tâl am wasanaethau Gofal a Chymorth.
- I gadarnhau y bydd y gofynion a nodwyd yn y Rheoliadau a'r Cod Ymarfer yn cael eu mabwysiadu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Cyfeirir at Ofyniad yn y Cod Ymarfer fel '**mae'n rhaid**' neu '**rhaid peidio**'.
- I gadarnhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, mewn perthynas ag asesiadau ariannol neu godi tâl lle bo'r Rheoliadau neu'r Cod Ymarfer yn caniatáu neu'n cyflwyno disgresiwn. Yn y Cod Ymarfer, pan fo gan Awdurdodau Lleol ddisgresiwn nodir 'caiff' neu 'dylai/ni ddylai'. Er mwyn osgoi dyblygu, lle caniateir disgresiwn, cadarnheir bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn mabwysiadu'r lleiafswm o ran yr holl ofynion fel y nodir yn y Cod Ymarfer fel ei bolisi ei hun heblaw y nodir yn wahanol yn y polisi hwn.

3.0 Pwy y mae'r polisi yn effeithio arnynt?

Bydd y Polisi hwn yn effeithio ar unrhyw Oedolion sy'n derbyn Gofal a Chymorth gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Maent yn cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth, eu gofalwyr, eu teuluoedd a'u cynrychiolwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae'r Polisi hefyd yn berthnasol i staff yn yr Adran y disgwylir iddynt gydymffurfio â'r Polisi hwn.

4.0 Gwasanaethau y gellir codi tâl amdanynt ac na ellir codi tâl amdanynt

Mae'r adran hon yn nodi'r gwahanol Wasanaethau Gofal a Chymorth sy'n cael eu darparu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n dangos pa wasanaethau y codir tâl amdanynt ar y defnyddiwr gwasanaeth a pha wasanaethau fydd yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim. Sylwer y gall unrhyw un o'r isod newid.

4.1 Gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu yn rhad ac am ddim yn unol â'r rheoliadau

- Cludiant i Wasanaethau Dydd Lle y darperir cludiant i ddiwallu anghenion yr unigolyn.
- Gwasanaethau Ôl-Ofal sy'n cael eu darparu o dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bobl sy'n dioddef o Glefyd Creuzfeldt Jacob
- Gwasanaethau Gofal Canolradd.
- Gwasanaethau Gofal Ailalluogi

4.2 Gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n rhad ac am ddim yn unol â Pholisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

- Ail Ofalwr (sy'n bresennol yn benodol i gefnogi'r gofalwr cyntaf gyda dyletswyddau megis codi neu symud y Defnyddiwr Gwasanaeth ac i gynnal iechyd a diogelwch y gofalwr cyntaf).

- Gwasanaethau Gofalwr sy'n cael eu darparu o dan Adran 2 *Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000*
- Gwasanaethau Pasbort Cefnogi Pobl (Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n derbyn Gwasanaethau Cefnogi Pobl cyn mis Ebrill 2008)
- Gwasanaethau Therapiwtig

4.3 Gwasanaethau y gellir codi tâl amdanynt

- Gofal Preswyl a Nyrsio sy'n cael ei ddarparu mewn Cartref Gofal. Yn cynnwys Gofal Parhaol, Dros Dro a gofal seibiant.
- Gwasanaethau Gofal Cartref sy'n cael eu prynu'n uniongyrchol gan yr Awdurdod. Yn cynnwys ystod o ofal personol, mewn rhai achosion gall gynnwys gweithgareddau cymdeithasol a hamdden er mwyn ceisio galluogi unigolyn i fyw yn eu cartref neu mewn lleoliad dibreswyl.
- Gwasanaethau Gofal Cartref sy'n cael eu darparu yn ystod y nos.
- Gwasanaethau Teleofal*
- Cynlluniau lleoli oedolion
- Llety â Chefnogaeth
- Taliadau Uniongyrchol, oni bai eu bod yn cael eu darparu i brynu gwasanaeth lle na ellir codi tâl amdanynt.
- Prydau a Lluniaeth sy'n cael eu darparu mewn Canolfannau Gofal Dydd*

*Gweler 5. 'Taliadau Unffurf'.

4.4 Mae Atodiad '2' yn cynnwys rhestr lawn o'r ffioedd safonol presennol a godir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer yr holl wasanaethau y gellir codi tâl amdanynt yn sir Conwy. Efallai y bydd gofal a chymorth arbenigol, ansafonol ac allan o'r sir yn achosi taliadau safonol gwahanol. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd modd derbyn darpariaeth gofal digonol ar y gyfradd safonol. Bydd defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwybod cyfanswm cost eu gofal pan gaiff ei drefnu.

4.5 Fel arfer bydd Gofal Preswyl/ Nyrsio sy'n cael ei brynu o gartrefi gofal y tu allan i'r sir yn cael eu prynu ar y gyfradd safonol a osodwyd gan yr Awdurdod Lleol lle mae'r cartref gofal wedi'i leoli.

5.0 Taliadau Unffurf

5.1 Caniateir taliadau unffurf yn y Ddeddf ar gyfer Gofal a Chymorth lefel isel a chostau isel. Mae hefyd yn cael ei ganiatáu fel modd o godi tâl am wasanaethau a chymorth ataliol.

5.2 Mae taliad unffurf yn daladwy gan bawb sy'n derbyn y gwasanaethau hyn. Nid yw Conwy yn cynnig asesiad modd i dderbynwyr y gwasanaethau hyn. Os cynhelir asesiad modd mewn perthynas â'r ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau eraill y gellir codi tâl amdanynt, bydd taliad unffurf yn daladwy yn ogystal ag unrhyw uchafswm cyfradd wythnosol a osodwyd. Mae'r Taliad Unffurf hefyd yn daladwy pan fo'r derbynnydd yn cael eu hasesu i dalu dim cyfraniad am wasanaethau eraill y maent yn eu derbyn.

5.3 Yn y broses o gyfrifo asesiad modd bydd y swm â delir fel taliad unffurf yn cael ei gynnwys fel traul a ganiateir wrth gyfrifo 'isafswm incwm' y derbynnydd. Bydd hyn yn cynyddu faint o arian y gall defnyddiwr gwasanaeth ei gadw cyn y codir tâl arnynt am wasanaethau eraill.

6.0 Trin Cyfalaf

- 6.1 Mae Atodiad A Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys canllawiau manwl ar gyfer triniaeth o gyfalaf. Mae copi o'r cod ymarfer ynghlwm i'r polisi hwn fel Atodiad 1. Mae Conwy'n mabwysiadu'r canllawiau a nodwyd yn y Cod Ymarfer fel ei bolisi ei hun.
- 6.2 Bydd holl gynilon a chyfalaf y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hystyried mewn asesiadau codi tâl ar gyfer gofal preswyl / nyrsio a gofal dibreswyl, gan eithrio'r holl gyfalaf ac eiddo sy'n cael ei ddiystyru fel y nodir yn y Cod Ymarfer.
- 6.3 Yr unig wahaniaeth rhwng triniaeth o gyfalaf ar gyfer gofal preswyl / nyrsio a gofal dibreswyl yw bod gwerth eiddo a feddiannir gan y defnyddiwr gwasanaeth fel eu prif neu unig gartref, yn cael ei ddiystyru o'r asesiad modd ar gyfer gofal dibreswyl. Bydd gwerth unrhyw eiddo arall yn cael ei gyfrif fel cyfalaf.
- 6.4 Bydd perchnogaeth Cynilon a Chyfalaf y tu hwnt i'r Terfyn Cyfalaf (Atodiad '2') a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn golygu bod y Defnyddiwr Gwasanaeth yn talu'r gyfradd safonol lawn am eu gofal mewn cartref preswyl / gofal nyrsio. Yn achos gofal dibreswyl bydd yn golygu bod y defnyddiwr gwasanaeth yn talu'r gyfradd safonol lawn ar gyfer yr holl wasanaethau y maent yn eu derbyn hyd at yr uchafswm wythnosol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 6.5 Os oes gan ddefnyddiwr gwasanaeth gyfalaf sy'n is na'r terfyn cyfalaf, bydd eu cyfraniad tuag at gost eu gofal yn seiliedig ar yr hyn y gallant ei fforddio o'u hincwm. Bydd hyn yn cael ei benderfynu drwy asesiad modd.

7.0 Trin Incwm

- 7.1 Mae Atodiad A Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru yn cynnwys canllawiau manwl o driniaeth incwm. Mae copi o'r Cod Ymarfer ynghlwm i'r polisi hwn fel Atodiad 1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn mabwysiadu'r canllawiau a nodwyd yn y Cod Ymarfer fel ei bolisi ei hun.
- 7.2 Bydd holl incwm y defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ystyried mewn asesiadau codi tâl ar gyfer gofal preswyl / nyrsio a gofal dibreswyl, gan eithrio'r holl incwm sy'n cael ei ddiystyru fel y nodir yn y Cod Ymarfer.

7.3 Incwm y mae'n rhaid ei ddiystyru

- Enillion – o gyflogaeth fel y diffinnir yn y rheoliadau a'r cod ymarfer.
- Taliadau Uniongyrchol
- Taliadau Incwm Gwarantedig a wnaed i Gyn-filwyr o dan Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog
- Elfen symudedd o Lwfans Byw i'r Anabl a Taliad Annibyniaeth Personol (â thâl atodol symudedd)
- Credyd Treth Gwaith
- Incwm blwydd-dal pan gaiff ei brynu gyda: benthyciad yn erbyn prif/unig gartref defnyddwyr gwasanaeth, neu wobwr dewrder megis blwydd-dal Croes Fictoria neu Blwydd-dal Croes San Siôr. Gweler y Cod Ymarfer i gael rhagor o fanylion.
- Yswiriant diogelu morgais. Gweler y Cod Ymarfer i gael rhagor o fanylion.
- Taliadau Annibyniaeth a Thaliadau Ategol Symudedd y Lluoedd Arfog
- Taliadau Cynhaliaeth Cynnal Plant a Budd-dal Plant
- Credyd Treth Plant
- Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor pan fo hyn yn cynnwys taliad i'r unigolyn
- Bonws Nadolig
- Ychwanegiad dibyniaeth a delir gyda budd-daliadau penodol
- Ymddiriedolaeth Ddewisol
- Gwobrau Dewrder

- Lwfans Gwarcheidwad
- Incwm wedi'i rewi dramor
- Incwm mewn nwyddau
- Taliadau Nadolig Pensiynwyr
- Budd-dal ad-leoli
- Taliadau Cronfa Gymdeithasol (gan gynnwys taliadau tanwydd y gaeaf)
- Taliadau Gweddwon Rhyfel
- Unrhyw daliadau a dderbyniwyd fel deilydd Croes Fictoria, Croes San Siôr neu gyfwerth
- Unrhyw grantiau neu fenthyciadau a delir ar gyfer addysg
- Taliadau a wnaed mewn perthynas â hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth
- Unrhyw daliad gan:
 - Ymddiriedolaeth Macfarlane
 - Ymddiriedolaeth (Taliadau Arbennig) Macfarlane
 - Ymddiriedolaeth (Taliadau Arbennig) (rhif 2) Macfarlane
 - Sefydliad Caxton
 - Y Gronfa (taliadau i rai nad ydynt yn hemoffilig sydd â HIV)
 - Ymddiriedolaeth Eileen
 - MFET Limited
 - Cronfa Byw'n Annibynnol (2006)
 - Unrhyw swm a delir o dan Gynllun Byw'n Annibynnol Cymru
 - Cronfa Skipton
 - Cronfa Elusennol yn dilyn Bomio Llundain
- Taliadau elusennol neu wirfoddol Gweler y cod ymarfer.
- Budd-dal Tai

7.4 Incwm sy'n cael ei ddiystyru'n rhannol

- £10 cyntaf yr wythnos o bensiwn Gweddwon Rhyfel, Taliadau Incwm Gwarantedig goroeswr o Gynllun Iawndal y Lluoedd Arfog, pensiwn Anaf Rhyfel Sifiliad a thaliadau i ddioddefwyr erledigaeth Sosialwyr Cenedlaethol (a delir o dan gyfraith yr Almaen neu Awstria): a'r £25 cyntaf yr wythnos o Bensiwn Anabledd Rhyfel. Ar gyfer asesiadau gofal dibreswyl bydd Pensiwn Anabledd Rhyfel yn cael ei ddiystyru'n llawn.
- Diystyriaeth Credyd Cynilon a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

7.5 Incwm a fydd yn cael ei ystyried yn llawn

- Lwfans Mynychu, gan gynnwys Lwfans Mynychu Cyson a Lwfans Anabledd Difrifol Eithriadol.
- Lwfans profedigaeth
- Lwfans Gofalwyr
- Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu fudd-daliadau y mae hyn yn ei ddisodli megis Lwfans Anabledd Difrifol a Budd-dal Analluogrwydd.
- Cymhorthdal Incwm
- Budd-Dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu fudd-dal cyfwerth
- Lwfans Ceisio Gwaith
- Lwfans Mamolaeth
- Credyd Pensiwn
- Taliad Annibyniaeth Personol (Elfen Byw Bob Dydd)
- Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Cynhwysol
- Pensiwn Galwedigaethol/Pensiwn Preifat

Dylid ystyried unrhyw incwm sydd heb ei restru yn 7.3, 7.4 a 7.5 yn llawn.

7.6 Incwm Tybiannol

Efallai y bydd Defnyddwyr Gwasanaeth yn cael eu trin fel eu bod yn derbyn incwm tybiannol o dan amgylchiadau penodol. Efallai y bydd hyn o ganlyniad i fod yn gymwys i hawlio incwm heb wneud cais amdano, neu sy'n amddifadu eu hunain yn fwriadol rhag derbyn incwm er mwyn osgoi taliadau am ofal. Bydd Conwy'n ystyried incwm tybiannol yn unol â'r canllawiau a nodwyd yn y cod ymarfer.

8.0 **Isafswm Incwm**

Wrth gynnal asesiad ariannol mae'n rhaid i'r awdurdod lleol adael y defnyddiwr gwasanaeth gydag isafswm incwm (MIA). Mae Isafswm Incwm gwahanol yn cael ei osod ar gyfer gwasanaethau gofal Preswyl / Nyrsio a Dibreswyl.

8.1 Gofal Preswyl / Nyrsio

Mae'r isafswm incwm ar gyfer gofal preswyl a nyrsio yn cael ei osod gan Lywodraeth Cymru. Mae'n swm ariannol penodol, ac mae'r manylion hyn wedi'u nodi yn Atodiad '2'.

Polisi Conwy yw defnyddio'r Isafswm Incwm a osodwyd gan Lywodraeth Cymru fel ei Isafswm Incwm safonol. Nid yw hyn yn atal defnyddwyr gwasanaethau rhag gofyn am isafswm incwm uwch o dan amgylchiadau penodol. Bydd yr holl geisiadau i gynyddu'r Isafswm Incwm safonol yn cael eu trin yn unol â'r canllawiau a nodwyd yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru.

8.2 Gofal Dibreswyl

Mae'r Isafswm Incwm ar gyfer derbynwyr gofal dibreswyl yn cael ei gyfrifo yn unol â'r fformiwla a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei reoliadau. Yn hytrach na bod yn swm ariannol penodol, mae'r Isafswm Incwm ar gyfer gofal dibreswyl yn seiliedig ar 'Hawl Sylfaenol pob unigolyn i fudd-dal lles perthnasol'. Mae manylion llawn sut i gyfrifo Isafswm Incwm ar gyfer gofal dibreswyl wedi'u nodi yn y rheoliadau a'r cod ymarfer. Byddai darlun syml fel a ganlyn:

Hawl Sylfaenol i Fudd-daliadau +35% +10% = Isafswm Incwm

Mae'n bolisi yng Nghonwy bod yr holl Ddefnyddwyr Gwasanaeth o oedran pensiwn yn derbyn Lwfans Incwm gyda gwerth sy'n gyfwerth â'r Lwfans Incwm a gyfrifir gan ddefnyddio Isafswm Gwarant Credyd Pensiwn +45% fel isafswm a ddefnyddwyr gwasanaeth o dan oed pensiwn gan ddefnyddio Isafwm Lwfans Cymhorthdal Incwm +45%.

8.3 Hawl Sylfaenol

Mae'r hawl sylfaenol i fudd-daliadau yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

- Cymhorthdal Incwm / Lwfans Ceisio Gwaith: y lwfans personol ac unrhyw bremiwm y mae Defnyddiwr Gwasanaeth yn gymwys i'w derbyn, ond nid yw'n cynnwys Premiwm Anableded Dirifol lle caiff ei dalu, a phan fo Defnyddiwr Gwasanaeth yn ofalwr, mae'n cynnwys unrhyw bremiwm gofalwr y mae'r person yn ei dderbyn.

- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth: y lwfans personol ac unrhyw bremiwm neu elfennau y mae Defnyddiwr Gwasanaeth yn gymwys i'w derbyn, ond nid yw'n cynnwys Premiwm Anabledd Difrifol lle caiff ei dalu, a phan fo Defnyddiwr Gwasanaeth yn ofalwr, mae'n cynnwys unrhyw bremiwm gofalwr y mae'r person yn ei dderbyn.
- Isafswm Gwarant Credyd Pensiwn (cyfeiri ato fel "Credyd Gwarantedig" yn y reholidau): y lwfans personol ac unrhyw swm ychwanegol y mae Defnyddiwr Gwasanaeth yn gymwys i'w derbyn, ond nid yw'n cynnwys unrhyw swm ychwanegol a delir ar gyfer anabledd difrifol, a phan fo Defnyddiwr Gwasanaeth yn ofalwr, mae'n cynnwys unrhyw swm ychwanegol sy'n berthnasol i ofalwyr y mae'r person yn ei dderbyn.

Yn gyffredinol, ond nid ym mhob amgylchiad, bydd Isafswm Incwm defnyddwyr gwasanaeth o dan oedran pensiwn, o gymharu â'r rhai o oedran pensiwn, yn is. Mae hyn oherwydd bod eu hawl sylfaenol i fudd-daliadau yn is. Mae Atodiad '3' yn cynnwys cyfrifiadau manwl ar gyfer Isafswm Incwm defnyddwyr gwasanaeth o bob oedran.

8.4 Byffer

Mae'r isafswm o ran byffer wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru yn 35% o hawl sylfaenol defnyddiwr gwasanaeth i fudd-daliadau. Polisi Conwy yw cymhwyso'r isafswm o ran byffer fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau.

8.5 Gwariant yn gysylltiedig ag Anabledd

Mae'r isafswm y mae'n rhaid ei ganiatáu ar gyfer gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru yn 10% o hawl sylfaenol defnyddiwr gwasanaeth i fudd-daliadau. Polisi Conwy yw cymhwyso'r isafswm gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau.

Nid yw hyn yn atal defnyddiwr gwasanaeth rhag gofyn am adolygiad o'u taliadau os ydynt yn credu bod eu gwariant sy'n gysylltiedig ag anabledd yn fwy na'r 10% o swm safonol a ganiateir.

9.0 **Uchafswm tâl wythnosol am wasanaethau**

9.1 Gofal Preswyl / Nyrsio mewn Cartref Gofal.

Nid oes uchafswm tâl wythnosol am ofal preswyl / nyrsio. Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn atebol i dalu am gost lawn eu gofal. Os yw defnyddiwr gwasanaeth angen cymorth ariannol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddiwallu cost eu gofal mae'n ofynnol iddynt wneud cais am asesiad modd. Bydd asesiad modd yn cadarnhau lefel y cyfraniad sy'n ofynnol gan ddefnyddiwr gwasanaeth. Gallai hyn fod yn gost lawn eu gofal, neu swm llai.

Fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau a'r cod ymarfer, bydd y cyfraniad sy'n ofynnol tuag at gostau wyth wythnos cyntaf eu gofal am aros dros dro neu ofal seibiant mewn cartref gofal yn cael ei asesu yn unol â'r rheoliadau ar gyfer gofal dibreswyl. O ganlyniad, bydd yr uchafswm tâl wythnosol yn berthnasol yn unol â'r rheoliadau a'r polisi ar gyfer gofal dibreswyl.

9.2 Gofal Dibreswyl

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchafswm tâl wythnosol ar gyfer gwasanaethau gofal dibreswyl. Gweler adran 7 y cod ymarfer (Atodiad 1 y polisi hwn). Mae'r uchafswm tâl wythnosol presennol wedi'i nodi yn Atodiad '2' y polisi hwn.

Polisi Conwy yw defnyddio'r uchafswm tâl wythnosol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd yr uchafswm tâl yn berthnasol i holl dderbynwyr gwasanaethau gofal dibreswyl, oni bai, o ganlyniad i'r asesiad modd unigol, bod uchafswm tâl wythnosol is yn cael ei osod yn seiliedig ar yr hyn y gallant ei fforddio.

10.0 Gweithdrefn ar gyfer gosod tâl

10.1 Gofal Preswyl / Nyrsio

Ar gyfer gofal preswyl / nyrsio, bydd cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gadarnhau naill ai cyn dechrau eu gofal, neu cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau'r lleoliad. Mae'r holl gyfraniadau ar gyfer Gofal Preswyl a Nyrsio yn daladwy o'r diwrnod cyntaf y darperir y gwasanaeth.

Bydd unrhyw newid dilynol i gyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig, neu mewn fformat amgen a gytunwyd.

10.2 Gofal Dibreswyl

I gyfrifo faint y mae angen i Ddefnyddiwr Gwasanaeth ei dalu am Wasanaeth neu gyfuniad o Wasanaethau mewn un wythnos (bydd wythnos bob amser yn golygu o ddydd Sul i'r dydd Sadwrn canlynol) bydd Conwy'n symud ymlaen fel a ganlyn:

- a) Nodi'r holl wasanaethau y gellir codi tâl amdanynt y mae'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn eu derbyn yn wythnosol. Os nad oes modd gwneud hyn erbyn yr adeg y bydd anfoneb yn cael ei gynhyrchu (un mis calendr o ôl-daliad), bydd y tâl yn seiliedig ar gynllun gofal penodol yr unigolyn.
- b) Cymhwyso'r Tâl Safonol perthnasol i bob Gwasanaeth. (e.e. £15.00 yr awr am Ofal Cartref).
- c) Ychwanegu'r holl Daliadau Safonol am Wasanaethau sy'n cael eu darparu i ffurfio cyfanswm y tâl am yr wythnos.
- d) Cymhwyso'r Uchafswm Tâl Wythnosol (Efallai na fydd hyn yn berthnasol os yw cyfanswm y tâl wythnosol yn llai na'r uchafswm), neu os yw'n is:
- e) Cymhwyso Uchafswm Tâl Wythnosol Defnyddiwr Gwasanaeth unigol fel y pennwyd gan Aseiad Modd unigol y Defnyddiwr Gwasanaeth (os ceisiwyd un).

Mae'r holl gyfraniadau ar gyfer gofal dibreswyl yn daladwy o'r diwrnod cyntaf y darperir y gwasanaeth. Bydd cyfraniad y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gadarnhau naill ai cyn dechrau eu gofal, neu cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau darparu'r gofal. Bydd unrhyw newid dilynol i gyfraniad cychwynnol y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei gyfathrebu'n ysgrifenedig, neu mewn fformat amgen a gytunwyd. Bydd y newid i'r tâl yn berthnasol o'r dyddiad a nodwyd ar yr hysbysiad.

11.0 Yr Aseiad Ariannol

11.1 Bydd pob Defnyddiwr Gwasanaeth sy'n derbyn gwasanaeth y gellir codi tâl amdano, gan eithrio gwasanaethau lle bo tâl unffurf yn cael ei dalu, yn cael gwybod fod ganddynt yr hawl i geisio cymorth ariannol gan Gonwy i dalu am eu gofal. Gellir gwneud y cais hwn drwy gwblhau ffurflen gais am aseiad ariannol.

Bydd Defnyddwyr Gwasanaeth yn derbyn 15 diwrnod gwaith i lenwi a dychwelyd y ffurflen aseiad ariannol. Os na ddychwelir y ffurflen o fewn y terfyn amser hwn bydd Conwy'n tybio nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth eisiau gwneud cais am gymorth ariannol gan y Cyngor a bydd anfoneb ar gyfer tâl wythnosol llawn yn cael ei hanfon at y defnyddiwr gwasanaeth.

Mae Defnyddwyr Gwasanaeth yn atebol i dalu am eu gofal o'r diwrnod cyntaf y byddant yn ei dderbyn. Cyn y gwneir unrhyw daliad bydd Conwy yn cyflwyno datganiad i'r defnyddiwr gwasanaeth yn nodi'r swm y mae angen iddynt ei dalu a sut y cyfrifwyd y swm hwn.

O bryd i'w gilydd efallai y bydd y swm sy'n daladwy yn newid, gall hyn fod oherwydd:

- Newid yn y math o ofal a dderbynnir
- Newid ym modd y defnyddiwr gwasanaeth (asesiad ariannol)
- Newid yng nghostau darparu'r gofal i'r Cyngor.

Bydd unrhyw newid i'r swm sydd angen ei dalu yn cael ei gyfathrebu i'r defnyddiwr gwasanaeth drwy ddatganiad. Bydd unrhyw newidiadau yn berthnasol o'r dyddiad a nodwyd yn y datganiad.

Bydd Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n derbyn cyfraniad gwasanaeth Taliad Uniongyrchol yn cael ei ddiynnu yn y tarddiad.

- 11.2 Mae gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth yr hawl i ofyn am Asesiad Modd ar unrhyw adeg, hyd yn oed os ydynt wedi penderfynu peidio gofyn am un yn y gorffennol.

Nid oes unrhyw ymrwymiad ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i ôl-ddyddio unrhyw asesiad a gynhelir ar ddyddiad diweddarach os na wnaed cais am asesiad modd gan y Defnyddiwr Gwasanaeth yn flaenorol. Bydd y Defnyddiwr Gwasanaeth yn parhau'n atebol am unrhyw swm sy'n ddyledus rhwng dyddiad yr asesiad ariannol gwreiddiol a dyddiad yr asesiad ariannol newydd os gofynnir am un.

12.0 Asesiad o Ddefnyddwyr Gwasanaeth fel Pobl Sengl neu Gwpl (Gofal dibreswyl)

- 12.1 Oni bai y gofynnir fel arall gan y Defnyddwyr Gwasanaeth, bydd Conwy yn asesu gallu Defnyddiwr Gwasanaeth i dalu yn seiliedig ar eu modd unigol ac yn anwybyddu unrhyw incwm, Cynilon neu Gyfalaf a ddelir neu a dderbynnir yn enw'r partner yn unig.

Os yw'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn gofyn, a bod y partner yn cyflwyno'r holl fanylion ariannol yn ogystal â manylion y Defnyddiwr Gwasanaeth yna gellir cwblhau Asesiad Modd ar gyfer y cwpl.

12.2 Asesiad Unigol

Mewn amgylchiadau pan fo Defnyddiwr Gwasanaeth yn gofyn am asesiad unigol, bydd yr asesiad yn ystyried y canlynol:

- 100% o'r holl incwm a dderbynnir yn enw'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn unig
- 50% o gyfalaf/ cynilon a gedwir ar y cyd.
- 100% o'r holl gyfalaf a gedwir yn enw'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn unig.

12.3 Asesiad Cwpl

Wrth gyfrifo asesiadau cwpl bydd diystyriaeth incwm yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r hawl sylfaenol i Fudd-daliadau ar gyfer cyplau a 45%.

Nid oes modd darparu cyngor i Ddefnyddiwr Gwasanaeth cyn cyflawni Asesiad Modd. Er enghraifft, os ydynt yn debygol o fod mewn gwell sefyllfa yn cael eu hasesu fel person sengl

neu gwpl. Fodd bynnag, pan fo canlyniad yr asesiad yn hysbys, yr asesiad mwyaf ffafriol ar gyfer y Defnyddiwr Gwasanaeth fydd yn cael ei ddefnyddio.

12.4 Beth os yw'r ddau bartner mewn Cwpl yn Ddefnyddwyr Gwasanaeth?

Pan fydd dau bartner mewn cwpl yn Ddefnyddwyr Gwasanaeth byddant hefyd yn cael y dewis o gael eu hasesu fel unigolion neu fel cwpl.

Wrth asesu cwpl bydd y terfyn cyfalaf yn cael ei ddyblu. Os yw cynilon neu gyfalaf ar y cyd y cwpl yn rhagori ar y lefel hon yna codir tâl am y gyfradd safonol lawn am y Gwasanaeth y maent yn ei dderbyn hyd at Uchafswm y tâl wythnosol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

13.0 Treuliau a Chostau (Gofal Dibreswyl)

13.1 Mewn rhai amgylchiadau mae'n rhaid ystyried treuliau a chostau penodol wrth gynnal asesiad modd. Pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn ysgwyddo'r costau hyn, bydd yr 'isafswm incwm' yn cael ei gynyddu yn unol â swm wythnosol cyfatebol. Bydd hyn yn caniatáu i'r defnyddiwr gwasanaeth gadw arian penodol i dalu'r treuliau hyn cyn iddynt orfod dechrau talu am ofal.

Bydd y treuliau canlynol yn cael eu hystyried mewn asesiad modd dibreswyl:

- Taliadau Morgais
- Taliadau Rhent (Net budd-dal tai)
- Treth y Cyngor (Net Gostyngiad Treth y Cyngor)
- Taliadau Gwasanaeth (Net budd-dal tai)

Mae'n rhaid i Ddefnyddiwr Gwasanaeth gyflwyno tystiolaeth bod treuliau'n cael eu talu, ac yn ddyledus yn y dyfodol cyn y gellir eu cyfrif yn yr asesiad modd. Ni fydd asesiadau ariannol yn cael eu newid yn ôl-weithredol os na ddarparwyd yr wybodaeth sy'n ofynnol pan yr oedd yn ofynnol ar gyfer yr asesiad ariannol cychwynnol.

13.2 Bydd unrhyw dreuliau neu gostau a ysgwyddir gan Ddefnyddiwr Gwasanaeth sy'n byw ar ei ben ei hun yn cael eu hystyried yn llawn. Os yw Defnyddiwr Gwasanaeth yn byw gyda phartner neu oedolion eraill dros 18 oed nad ydynt mewn addysg llawn amser, bydd unrhyw dreuliau neu gostau yn cael eu haneru neu eu rhannu'n gyfartal i adlewyrchu cyfraniad pob oedolyn at gostau'r aelwyd.

14.0 Trefniadau Talu Gohiriedig (Gofal Preswyl / Nyrsio)

14.1 Ar ôl y 12 wythnos gyntaf o ofal preswyl/nyrsio parhaol, bydd gwerth prif neu unig gartref y Defnyddiwr Gwasanaeth yn cael ei gynnwys fel cyfalaf yn eu hasesiad modd ariannol. Fel arfer bydd hyn yn golygu y bydd eu cyfalaf yn rhagori ar y terfyn cyfalaf, ac o ganlyniad byddant yn cael eu hasesu fel bod angen iddynt dalu costau llawn eu gofal. Ar y pwynt hwn, os nad oes ganddynt asedau eraill neu fodd o dalu'r costau llawn yna byddant yn gymwys i ofyn i Gonwy ohirio taliad cyfran o'u ffioedd gofal gan ddefnyddio eu heiddo fel diogelwch. Gelwir y trefniant hwn yn gytundeb taliadau gohiriedig. Gall gohirio taliad gynorthwyo defnyddiwr gwasanaeth i ohirio'r angen i werthu eu cartref ar adeg sy'n heriol iddynt hwy a'u teulu wrth iddynt drosglwyddo i ofal preswyl.

14.2 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn mabwysiadu'r gofynion a'r canllawiau sy'n ymwneud â thaliadau gohiriedig fel y nodwyd yn Atodiad D Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru. (Atodiad 1 y polisi hwn)

- 14.3 Bydd Conwy yn codi llog ar yr holl gytundebau taliadau gohiriedig ar yr uchafswm a ganiateir yn y rheoliadau. Mae hyn yn 0.15% yn uwch na'r 'gyfradd berthnasol'. Y gyfradd berthnasol yw cyfradd giltiau'r farchnad a nodwyd yn yr adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Bydd y gyfradd berthnasol yn newid bob chwe mis ar 1 Ionawr a 1 Gorffennaf.
- 14.3 Mae llog yn daladwy o 90 diwrnod ar ôl marwolaeth y defnyddiwr gwasanaeth ar yr holl symiau sy'n ddyledus. Fodd bynnag, os yw'r holl symiau sy'n ddyledus yn cael eu talu o fewn chwe mis o ddyddiad eu marwolaeth, ni chodir unrhyw log.

15.0 Taliadau Ychwanegol – Cost Ychwanegol (Gofal Preswyl / Nyrsio yn unig)

- 15.1 Ni fydd Conwy fel arfer yn llunio contract gyda chartrefi gofal nad ydynt yn derbyn ffi safonol Conwy ar gyfer y math o ofal a gomisiynir. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau lle bo defnyddiwr gwasanaeth yn mynegi dymuniad i fyw mewn cartref gofal sy'n codi ffi sy'n uwch na ffi safonol Conwy, efallai y bydd trefniant yn bosibl os oes trydydd parti yn fodlon talu'r gost ychwanegol.
- Y Gost Ychwanegol yw'r gwahaniaeth rhwng y swm y bydd Conwy'n ei dalu a chost y cartref gofal a ddewiswyd.
- 15.2 Mae Atodiad 'C' o Ganllawiau Llywodraeth Cymru (Atodiad 1 y polisi hwn) yn amlinellu'r gofynion a roddir ar yr Awdurdod wrth ddelio â chostau ychwanegol.
- 15.3 Bydd Conwy'n ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw drydydd parti yn llunio contract ffurfiol gyda'r Cyngor cyn y cytunir ar unrhyw leoliad lle bo costau ychwanegol. Bydd yn rhaid i'r trydydd parti ddarparu tystiolaeth eu bod yn gallu cynnal taliad y costau ychwanegol am hyd y lleoliad.
- 15.4 Bydd Conwy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cartref gofal yn casglu unrhyw daliadau ychwanegol yn uniongyrchol gan y trydydd parti.
- 15.5 Bydd Conwy'n caniatáu i'r defnyddiwr gwasanaeth dalu eu costau ychwanegol eu hunain:
- Pan fyddant yn llunio contract costau gohiriedig.
- 15.6 Ni chaniateir gohirio taliad y costau ychwanegol mewn amgylchiadau lle bo'r ecwiti sydd ar gael yn yr eiddo a ddefnyddir fel diogelwch yn gyfyngedig. Bydd yn rhaid talu'r costau ychwanegol am hyd y lleoliad. Felly, bydd Conwy'n asesu cynaliadwyedd pob cais i ohirio cost ychwanegol. Os nad oes digon o ecwiti yn yr eiddo i alluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i dalu'r costau llawn am eu gofal am hyd eu lleoliad, bydd cais i ohirio cost ychwanegol yn cael ei wrthod.
- 15.7 Pe bai trydydd parti yn rhoi'r gorau i dalu'r gost ychwanegol y maent wedi cytuno ei dalu, byddant yn parhau i fod yn atebol am y taliadau hyn. Efallai y bydd Conwy yn cymryd camau cyfreithiol i adennill y costau. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd yn rhaid gwneud trefniadau amgen i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth mewn cartref gofal amgen nad yw'n codi tâl am gostau ychwanegol.

16.0 Adennill dyledion ac Amddifadu Asedau

Mae Atodiad F Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 1 y polisi hwn) yn nodi'r gofynion a osodir ar Awdurdodau Lleol wrth ddelio â dyled ac amddifadu asedau. Bydd Conwy'n ystyried peidio â thalu cyfraniad a aseswyd neu amddifadu asedau er mwyn osgoi tâl fel mater difrifol. Pan fydd yr holl ddewisiadau eraill a nodwyd yn y Cod Ymarfer wedi

methu â sicrhau'r taliad sy'n ofynnol, bydd Conwy'n ceisio adennill y dyledion drwy'r Llysoedd Sifil.

17.0 Adolygiadau a Chwynion

Gall unrhyw Ddefnyddiwr Gwasanaeth neu'r sawl sy'n derbyn y Taliadau Uniongyrchol ofyn am adolygiad o'u taliad. Gall adolygiad o daliad gynnwys ystod eang o sefyllfaoedd yn amrywio o Ddefnyddiwr Gwasanaeth yn gofyn am adolygiad syml o gyfrifiad mathemategol eu tâl a aseswyd neu anfoneb misol i Ddefnyddiwr Gwasanaeth yn gofyn am ystyried treuliau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd yng nghyfrifiad eu tâl a aseswyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r broses fanwl y dylai Awdurdodau Lleol ei dilyn wrth ymdrin ag adolygiadau o ffioedd yn Atodiad E eu Cod Ymarfer (gweler Atodiad 1 y Polisi hwn). Polisi Conwy yw dilyn y gofynion a nodir yn y Cod Ymarfer.

Dylid anfon yr holl geisiadau i adolygu taliadau ymlaen at Gyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg a fydd yn rheoli a chydlyn ymatebion i'r holl adolygiadau codi tâl ar ran y Gwasanaethau i Oedolion. Ym mhob achos bydd Defnyddiwr Gwasanaeth yn derbyn enw a rhif cyswllt ar gyfer y swyddog sy'n delio â'u hadolygiad.

Gellir datrys rhai adolygiadau yn ofalus e.e. gwallau mathemategol wrth gyfrifo. Efallai y bydd rhai adolygiadau yn cymryd mwy o amser ac y bydd angen cadarnhad gan ddarparwyr Gwasanaeth a /neu Gydlynwyr Gofal ynglŷn â lefelau'r Gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu a'i gomisiynu er mwyn gallu ateb yr adolygiad.

Bydd yr holl geisiadau am adolygiad na ellir eu datrys i foddhad y Defnyddiwr Gwasanaeth tra'n cydymffurfio â'r Polisi Codi Tâl yn cael eu hatgyfeirio am benderfyniad gan Banel Apêl Adolygu Taliadau.

Mae'n rhaid i unrhyw cais gan Ddefnyddiwr Gwasanaeth am adolygiad nodi'r rhesymau dros geisio'r adolygiad yn glir. Gellir gwneud cais ar lafar neu'n ysgrifenedig a gellir ei wneud ar unrhyw adeg ar ôl cyflwyno datganiad o daliadau.

Gall y Gwasanaethau i Oedolion wrthod cais am adolygiad os credir nad oes unrhyw newid perthnasol i amgylchiadau'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn dilyn cais blaenorol am adolygiad. Yn yr achos hwn, bydd datganiad yn cael ei anfon at Ddefnyddiwr Gwasanaeth yn nodi na fydd y cais am adolygiad yn cael ei ystyried gan y Gwasanaethau Oedolion oherwydd na fu unrhyw newid perthnasol mewn unrhyw amgylchiadau ac /neu nad yw'r Defnyddiwr Gwasanaeth wedi nodi unrhyw amgylchiadau ychwanegol eraill.

Gall Defnyddiwr Gwasanaeth neu Gynrychiolydd sy'n gweithredu ar ran y Defnyddiwr Gwasanaeth ofyn am adolygiad.

Pan fydd y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar adolygiad o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais, dylid darparu'r penderfyniad hwnnw i'r Defnyddiwr Gwasanaeth o fewn y terfyn amser hwnnw. Pan nad yw hyn yn bosibl dylid anfon datganiad o fewn pum diwrnod gwaith yn nodi:

- a) Y dyddiad y derbyniwyd y cais;
- b) Natur y cais;
- c) Hawl y Defnyddiwr Gwasanaeth i benodi Cynrychiolydd;
- d) Sut y bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnal yr adolygiad;

- e) Nad oes angen i'r Defnyddiwr Gwasanaeth dalu'r tâl sy'n destun adolygiad yn ystod cyfnod yr adolygiad. Ond mae angen hysbysu'r Uned Asesiad Ariannol / Swyddog Taliadau Uniongyrchol o'u penderfyniad i dalu neu beidio;
- f) Y bydd y Gwasanaethau Oedolion yn olrhain taliad unrhyw dâl a gronnir yn ystod y cyfnod adolygu os bydd yn daladwy o ganlyniad i'r adolygiad;
- g) Os yw'r Defnyddiwr Gwasanaeth sy'n ceisio'r adolygiad yn derbyn Taliad Uniongyrchol. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud taliadau gros yn ystod y cyfnod adolygu. Fodd bynnag, efallai bydd hyn yn cael ei adennill yn y dyfodol ar ôl yr adolygiad;
- h) Pa wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen ar y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn gwneud penderfyniad, a'r terfyn amser (15 diwrnod gwaith) er mwyn darparu'r wybodaeth honno;
- i) Os oes angen, gall y Defnyddiwr Gwasanaeth wneud cais am apwyntiad i gynorthwyo i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol;
- j) Bod angen cysylltu â'r Uned Asesu Ariannol i drefnu apwyntiad;
- k) Enw a manylion cyswllt y swyddog yn yr Uned Asesu Ariannol sy'n delio â'r adolygiad;
- l) Manylion cyswllt unrhyw sefydliad a allai gynorthwyo'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn ystod adolygiad. Bydd y wybodaeth hon yn nhaflen Canllaw Codi Tâl am Ofal Cymdeithasol i Oedolion ar gyfer Pobl sy'n byw yn eu cartref.

Bydd unrhyw gais a wneir gan Ddefnyddiwr Gwasanaeth am estyniad amser er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol yn cael ei gymeradwyo os yw'n rhesymol. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadarnhau unrhyw estyniad i'r terfyn amser gwreiddiol yn ysgrifenedig.

Os yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwrthod cais am estyniad amser bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig a darperir y rheswm dros y penderfyniad.

Os na dderbynnir ymateb neu gais am estyniad amser gan y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i gais am ragor o wybodaeth erbyn y terfyn amser a osodwyd, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ystyried bod y cais am adolygiad wedi'i dynnu'n ôl. Bydd llythyr yn cael ei anfon i'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn cadarnhau hyn a bod y gyfradd a osodwyd yn daladwy yn awr, ynghyd â'r swm a gronnwyd yn ystod cyfnod yr adolygiad ac erbyn pryd y mae'n rhaid talu hwn.

Efallai y bydd cais am adolygiad yn cael ei dynnu'n ôl ar lafar neu'n ysgrifenedig gan Ddefnyddiwr Gwasanaeth ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod adolygu.

Unwaith y bydd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ddigon o wybodaeth a dogfennau i gynnal yr adolygiad, bydd ganddynt 10 diwrnod gwaith i:

- a) Wneud penderfyniad ar yr adolygiad a chymryd unrhyw gamau sy'n ofynnol i'w weithredu;
- b) Anfon datganiad at y Defnyddiwr Gwasanaeth ac unrhyw Gynrychiolydd yn nodi'r penderfyniad, y rhesymau dros y penderfyniad a bod ganddynt yr hawl i wneud cwyn o dan Reoliadau Gweithdrefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 – gan ystyried "*Canllaw i ymdrin â chwynion a sylwadau gan Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol (Awst 2014)*" os ydynt yn anfodlon â'r penderfyniad.
- c) Os yw tâl y Defnyddiwr Gwasanaeth wedi'i ddiwygio o ganlyniad i'r adolygiad, dylid anfon datganiad at y Defnyddiwr Gwasanaeth yn egluro'r penderfyniad a chanlyniad y penderfyniad hwn.
- d) Datganiad o Ffioedd.

Os nad yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu diwallu'r terfyn amser er mwyn ymateb i gais am adolygiad (10 diwrnod gwaith), mae'n rhaid iddynt anfon datganiad i'r Defnyddiwr

Gwasanaeth yn nodi na fyddant yn gallu darparu penderfyniad o fewn y terfyn amser o 10 diwrnod, y rheswm dros hyn a'r dyddiad y darperir penderfyniad.

Os na ellir darparu penderfyniad erbyn y terfyn amser, ni fydd modd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol godi tâl ar y Defnyddiwr Gwasanaeth am y Gwasanaeth a dderbynnir yn ystod y cyfnod rhwng y terfyn amser a'r dyddiad y darperir y penderfyniad.

17.1 Talu tâl, ad-daliad neu gyfraniad yn ystod ac ar ôl y cyfnod adolygu

Os yw Defnyddiwr Gwasanaeth yn gofyn am adolygiad, efallai y byddant yn dewis peidio â thalu eu tâl, ad-daliad neu gyfraniad neu'r rhan sy'n destun yr adolygiad, yn ystod cyfnod yr adolygiad ond bydd unrhyw swm sydd heb ei dalu yn cronni.

Os yw'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn penderfynu peidio talu yn ystod y cyfnod adolygu mae'n rhaid iddynt hysbysu'r Uned Asesu Ariannol / Swyddog Taliadau Uniongyrchol naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig o fewn pum diwrnod gwaith.

O ran defnyddwyr Taliadau Uniongyrchol, os yw'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn penderfynu peidio â thalu eu cyfraniad yn ystod y cyfnod adolygu cyfan neu weddill y cyfnod adolygu mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Oedolion wneud taliadau gros i'r Defnyddiwr Gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Gall y Gwasanaethau Oedolion adennill unrhyw swm sydd heb ei dalu sydd wedi cronni yn ystod y cyfnod adolygu ar ôl y cyfnod adolygu. Y swm y gellir ei adennill yw'r swm y tâl, ad-daliad neu gyfraniad y mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi penderfynu ei fod yn gywir yn dilyn yr adolygiad.

Os yw'r Gwasanaethau Oedolion yn penderfynu bod y tâl neu'r cyfraniad sy'n daladwy gan y Defnyddiwr Gwasanaeth, yn **llai** na'r hyn a gyflwynwyd cyn yr adolygiad, yna mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol dalu'r Defnyddiwr Gwasanaeth y gwahaniaeth rhwng y swm sy'n daladwy a'r swm sydd eisoes wedi'i dalu gan y Defnyddiwr Gwasanaeth, o fewn 10 diwrnod o anfon eu penderfyniad at y Defnyddiwr Gwasanaeth.

Os yw'r Gwasanaethau Oedolion yn penderfynu bod y tâl neu'r cyfraniad sy'n daladwy gan y Defnyddiwr Gwasanaeth, yn **fwy** na'r hyn a gyflwynwyd cyn yr adolygiad, yna mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol adennill y gwahaniaeth rhwng y swm sy'n daladwy a'r swm sydd eisoes wedi'i dalu gan y Defnyddiwr Gwasanaeth.

Os ydynt yn adennill unrhyw swm gan y Defnyddiwr Gwasanaeth, mae'n rhaid i'r Gwasanaethau Oedolion ystyried amgylchiadau ariannol personol y Defnyddiwr Gwasanaeth; a bod yn fodlon na fydd adennill y swm yn achosi caledi ariannol i'r Defnyddiwr Gwasanaeth. Os yw'r Gwasanaethau Oedolion yn credu y byddai adennill y swm yn achosi caledi ariannol i'r Defnyddiwr Gwasanaeth, yna dylent gynnig opsiwn i'r Defnyddiwr Gwasanaeth i dalu'r swm mewn rhandaliadau.

18.0 Cronfa Byw'n Annibynnol

Bydd Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n derbyn cyllid gan y Gronfa Byw'n Annibynnol yn derbyn Uchafswm Tâl Wythnosol o £9 yr wythnos. Polisi Conwy yw hwn ac mae'n fwy hael na'r isafswm a osodwyd gan reoliadau Llywodraeth Cymru. Mae'r rheswm am hyn yn hanesyddol ac yn adlewyrchu'r ffaith fod Cronfa'r ILF wedi'i rhewi ac ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i gynyddu cyfraniadau cleientiaid blaenorol o dan Bolisiau Codi Tâl yr Awdurdod Lleol.

Dylai prosesu asesiad modd ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth sy'n derbyn cyllid gan yr ILF gynrychioli'r un broses â'r un ar gyfer yr holl Ddefnyddwyr Gwasanaeth eraill ym mhob ffordd arall.

Atodiad 1 – Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru

[Rhan 4 a 5 y Cod Ymarfer - \(Codi Tâl ac Asesiad Ariannol\)](#)

(Cliciwch i ddilyn y ddolen)



Atodiad 2 – Ffioedd a Manylion Ariannol

<u>Tabl Ffioedd Gwasanaethau Preswyl a Nyrsio – Residential & Nursing Care Fees Table 2016/17</u>	
Ffi Safonol Cartrefi Preswyl Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy <i>Standard Fee Conwy County Borough Council Care Homes</i>	£547 yr wythnos/ per week
<u>Cartrefi Gofal Preifat ac Anibynnol/ Private and Independent Sector Care Homes</u>	
Categori gofal/ Category of Care	
Preswyl (yn cynnwys dibyniaeth uchel) <i>Residential (including high dependency)</i>	£508 yr wythnos/ per week
Preswyl – dementia/EMI <i>Residential – dementia/EMI</i>	£547 yr wythnos/ per week
Nyrsio <i>Nursing</i>	£547* yr wythnos/ per week
Nyrsio – dementia/EMI <i>Nursing – dementia/EMI</i>	£596* yr wythnos/ per week
* Ddim yn cynnwys cyfraniad y Bwrdd Iechyd/ <i>Not including the Health Board Contribution.</i>	

Atodiad 2 – Ffioedd a Manylion Ariannol (Parhad)

<u>Tabl Ffioedd Gwasanaethau Dibreswyl- 2016/17</u>	
<u>Non Residential Fees Table- 2016/17</u>	
Math o Wasanaeth/ Type of Service	2016/17
Gofal Cartref/ Home Care	£15.00 yr awr/per hour
Gofal Cartref- Oriau'r Nos/ Home Care- Night Time Hours	£15.00 yr awr/per hour
Llety gyda Chymorth/ Assisted Living Accommodation	£15.00 yr awr/per hour
Taliadau Uniongyrchol/ Direct Payments	£10.52 yr awr/per hour
Pecyn Sylfaenol Teleofal/ Telecare Basic Package	£3.50 yr wythnos/ per week
Cynllun Lleoli Oedolion/ Adult Placement Scheme	Dim- Yn cael ei adolygu No charge- Review in progress
Cynhaliath mewn Canolfannau Gofal Dydd/ Sustenance at Day Care Centres	£ y dydd/per day

Atodiad 2 – Ffioedd a Manylion Ariannol (Parhad)

<u>Manylion Ariannol Eraill/ Other financial Details 2016/ 17</u>	
<i>Terfyn Cyfalaf/ Capital Limit</i>	<i>£24,000.00</i>
<i>Isafswm Incwm Preswyl a Nyrsio/ Residential & Nursing Minimum Income Amount</i>	<i>£26.50</i>
<i>Diystyriaeth Credyd Cynilon/ Savings Credit Disregard</i>	<i>£5.75 yr wythnos -sengl/ per week single £8.60 yr wythnos- cwpl/ per week couple</i>
<i>Taliadau Gohiriedig/ Deferred Charges</i>	
<i>Cyfradd Llog/ Interest Rate</i>	<i>0.15% uwchlaw i gyfradd 'giltiau'r farchnad'/ above the 'market gilts' rate</i>
<i>Ffioedd Cyfreithiol/ Legal Fees</i>	<i>I'w bennu/ To be determined</i>
<i>Ffi Prisiad Eiddo/ Property Valuation Fees</i>	<i>I'w bennu/ To be determined</i>
<i>Ffi Weinyddol/ Administrative charge</i>	<i>I'w bennu/ To be determined</i>
<i>Cyfnodau Rhybudd dod a chytundeb i ben, Cartrefi Gofal/ Notice Periods for terminating contracts, Care Homes</i>	
<i>Cyfnod rhybudd safonol- Standard notice period</i>	<i>7 Diwrnod gwaith- ffi lawn/ 7 Working Days at full charge</i>
<i>Cyfnod rhybudd cyfnod seibiant/ notice period respite</i>	<i>Ffi lawn yn daladwy hyd diwrnod olaf y trefniant os nad oes cytundeb i dalu llai/ Full charge to the last day of the arrangement unless there is agreement to pay less.</i>
<i>Cyfnod rhybudd derbyniadau brys/ Notice period for emergency admission</i>	<i>Dim/ None</i>
<i>Ffi yn ystod absenoldeb/ charge during absence</i>	<i>1 wythnos ar y gyfradd wythnosol lawn, wedyn 5</i>

	<p><i>wythnos ar 80% o'r gyfradd lawn. Bydd y cytundeb yn terfynu ar ôl hyn os nad oes trefniant yn cael ei wneud i gadw'r ystafell. Os oes trefniant pellach bydd 80% o'r gyfradd lawn yn daladwy. / 1 weeks at the full weekly rate, followed by 5 weeks at 80% of the full rate. Following this the contract will terminate unless an agreement is made to keep the room. If a further agreement is made the rate of 80% is payable.</i></p>
--	---